# Agenda – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 16 Mai 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

## 138(v3)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Arweinydd y Tŷ

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Arweinydd y Tŷ ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

(10 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 4 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth:**

Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad yn dilyn cadarnhad bod Llywodraeth Cymru wedi croesawu cynigion i ailenwi'r ail bont Hafren yn bont Tywysog Cymru?

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:**

Vikki Howells (Cwm Cynon): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y cynllun indemniad proffesiynol i ymarferwyr cyffredinol, yn dilyn y cyhoeddiad ddydd Llun?

## 5 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 6 Dadl ar bolisi Urddas a Pharch y Cynulliad

(30 munud)

**NDM6724** Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cymeradwyo polisi Urddas a Pharch Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

2. Yn nodi'r canllawiau ar gyfer polisi Urddas a Pharch Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Polisi Urddas a Pharch Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Polisi Urddas a Pharch Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Canllawiau cysylltiedig ar ymddygiad amhriodol

## 7 Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod – Bil cynllunio gwefru cerbydau trydan

(30 munud)

**NDM6720** [Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cynnig am fil cynllunio gwefru cerbydau trydan.

2. Yn nodi mai diben y bil hwn fyddai:

a) gosod canllawiau cynllunio ar gyfer datblygiadau newydd, boed hwy yn adeiladau cyhoeddus neu yn dai;

b) sicrhau bod adeiladau newydd yn gorfod cynnwys pwyntiau gwefru ar gyfer cerbydau trydan;

c) ei gwneud hi'n haws i bobl allu defnyddio cerbydau trydan er mwyn lleihau allyriadau carbon.

## 8 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) – Canser y coluddyn

(60 munud)

**NDM6682**

[Hefin David (Caerffili)]

[Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)]

[Mark Isherwood (Gogledd Cymru)]

[Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)]

[Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni)]

[Mandy Jones (Gogledd Cymru)]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu adroddiad diweddar gan Bowel Cancer UK a Beating Bowel Cancer sy'n tynnu sylw at ddiagnosis cynnar a'i uchelgais o wella cyfraddau goroesi pobl y mae canser y coluddyn yn effeithio arnynt.

2. Yn cydnabod cyfraniad dewr cleifion canser y coluddyn yng Nghymru o ran codi ymwybyddiaeth o'r clefyd a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol o ran gwella canlyniadau yn sgil galw cynyddol am ddiagnosis, o fewn cyfyngiadau'r gwasanaeth presennol.

3. Yn cydnabod mai canser y coluddyn yw'r canser sy'n lladd yr ail nifer fwyaf o bobl yng Nghymru ac yn cydnabod yr effaith a gaiff diagnosis cynnar ar gyfraddau goroesi a phwysigrwydd annog y cyhoedd i fanteisio ar gyfleoedd i sgrinio eu coluddion gan bod y niferoedd sy'n cael eu sgrinio wedi gostwng 1 y cant yn y 12 mis diwethaf.

4. Yn croesawu cyflwyno prawf imiwnogemegol ysgarthion (FIT) symlach a mwy cywir fel rhan o'r rhaglen profi'r coluddyn a'r potensial i wella cyfraddau goroesi canser y coluddyn.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu rhaglen sgrinio canser y coluddyn y gall gyrraedd ei photensial llawn ymdrin â materion o amgylch:

a) y trothwy arfaethedig ar gyfer prawf imiwnogemegol ysgarthion i'w gyflwyno yn 2019;

b) heriau sy'n bodoli o fewn gwasanaethau endosgopi a phatholeg i sicrhau y gellir cyflwyno prawf imiwnogemegol ysgarthion yn y ffordd orau bosibl;

c) yr angen i ostwng yr oedran sgrinio cymwys o 60 i 50.

Spotlight on Bowel Cancer in Wales - Early Diagnosis Saves Lives (Saesneg yn unig)

**Cefnogwr:**
Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

## 9 Dadl Plaid Cymru – Tlodi plant

(60 munud)

**NDM6723** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r cynnydd diweddar mewn tlodi plant.

2. Yn nodi gwaith ymchwil ar gyfer Achub y Plant Cymru a ganfu, erbyn iddynt droi'n bump oed, fod "tua thraean o'r plant sy'n byw mewn tlodi (30-35 y cant) eisoes yn colli tir mewn amrywiaeth o ddeilliannau gwybyddol (h.y. geirfa, datrys problemau, deheurwydd a chydsymud) o'i gymharu ag un o bob pump o'r rhai sy'n dod o deuluoedd mwy cyfoethog (20-21 y cant).

3. Yn credu bod y cyfrifoldeb dros y cynnydd mewn tlodi plant a dros fynd i'r afael â thlodi plant, yn nwylo Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

4. Yn gresynu at y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi dirwyn y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf i ben heb werthuso ei heffeithiolrwydd na darparu cynllun i gymryd ei lle.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau mynediad cyfartal at addysg plentyndod cynnar o ansawdd uchel a gofal i bob plentyn yng Nghymru, gyda ffocws penodol ar ddarparu cymorth ychwanegol i'r holl blant sy'n byw mewn tlodi, fel yr argymhellwyd gan Achub y Plant Cymru.

6. Yn galw ymhellach ar Lywodraeth Cymru i gymryd yr holl gamau o fewn ei phwerau i fynd i'r afael â thlodi plant fel rhan o'r cynllun newydd ar gyfer dileu tlodi plant, sy'n cynnwys targedau SMART yn hytrach na datganiadau amwys.

7. Yn credu na all cynllun o'r fath lwyddo heb reolaeth weinyddol dros nawdd cymdeithasol ac y dylai sicrhau'r pwerau hyn fod un o brif amcanion strategol y cynllun newydd.

Achub y Plant Cymru – Darnau Bach, Darlun Mawr – Manteisio ar Addysg Gynnar a Gofal Plant i sicrhau nad oes unrhyw blentyn yng Nghymru yn cael ei adael ar ôl

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod lefelau tlodi plant yng Nghymru yn uwch na lefel y DU gyda chyfraddau'n codi cyn y dirwasgiad diwethaf.

2. Yn nodi gwaith ymchwil ar gyfer Achub y Plant Cymru a ganfu, erbyn iddynt droi'n bump oed, fod "tua thraean o'r plant sy'n byw mewn tlodi (30-35 y cant) eisoes yn colli tir mewn amrywiaeth o ddeilliannau gwybyddol (h.y. geirfa, datrys problemau, deheurwydd a chydsymud) o'i gymharu ag un o bob pump o'r rhai sy'n dod o deuluoedd mwy cyfoethog (20-21 y cant)."

3. Yn cydnabod er bod polisi Llywodraeth y DU mewn meysydd sydd wedi'u cadw hefyd yn gymwys yng Nghymru, fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn gyfrifol am hyrwyddo ffyniant a rhaglenni trechu tlodi, gan gynnwys Cymunedau yn Gyntaf, yng Nghymru ers 1999.

4. Yn nodi pwysigrwydd mynediad at ofal ac addysg plentyndod cynnar o ansawdd uchel ar gyfer plant yng Nghymru a'r angen am gymorth wedi'i dargedu ar gyfer plant sy'n byw mewn tlodi.

5. Yn galw ymhellach ar Lywodraeth Cymru i gymryd yr holl gamau o fewn ei phwerau i fynd i'r afael â thlodi plant fel rhan o'r cynllun newydd ar gyfer dileu tlodi plant, sy'n cynnwys targedau SMART yn hytrach na datganiadau amwys.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2.** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

1. Yn credu bod y cyfrifoldeb dros fynd i'r afael â thlodi plant yn nwylo Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

2. Yn nodi gyda phryder bod dadansoddiad diweddaraf y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn dangos y bydd diwygiadau treth a lles Llywodraeth y DU yn gwthio 50,000 o blant ychwanegol i dlodi erbyn 2021/22.

3. Yn croesawu ffocws Llywodraeth Cymru ar gyflogaeth fel y llwybr gorau allan o dlodi a'r camau gweithredu uchelgeisiol a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi a'r Cynllun Cyflogadwyedd.

4. Yn croesawu'r buddsoddiad parhaus yn Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, y Grant Datblygu Disgyblion a Rhaglen Plant Iach Cymru er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl yn eu bywydau.

5. Yn credu y dylid diwallu anghenion lles holl ddinasyddion y DU yn gyfartal ac nad yw datganoli budd-daliadau lles yn cefnogi'r egwyddor hon.

Ymchwil y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cynllun Gweithredu ar yr Economi

Cynllun Cyflogadwyedd

## 10 Cyfnod Pleidleisio

## 11 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6715 Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)**

Rhent sefydlog - pam mae angen mesurau rheoli rhent i sicrhau bod rhentwyr preifat yn cael bargen deg.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 22 Mai 2018

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 09/05/2018 i'w hateb ar 16/05/2018

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

**Julie Morgan** *Gogledd Caerdydd*

1 OAQ52189

Pa drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU am y gronfa cyd-ffyniant?

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

2 OAQ52175

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu'r broses ar gyfer cyfrifo swm yr arian a ddyrannwyd i'r portffolio llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus i gefnogi digartrefedd?

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

3 OAQ52177

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am fuddsoddi strategol yng Ngorllewin De Cymru?

**Jane Hutt** *Bro Morgannwg*

4 OAQ52191

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet egluro'r dyraniad o gyllid Llywodraeth Cymru i undebau credyd yn dilyn y diweddariad diweddar i'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

5 OAQ52163

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y gronfa arloesi i arbed?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

6 OAQ52200

Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

Pa drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cael ynglŷn â chronfa cyd-ffyniant y Deyrnas Gyfunol?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

7 OAQ52160

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am argaeledd cyllid ar gyfer prosiectau cyfalaf dros y tair blynedd nesaf?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

8 OAQ52183

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i gefnogi buddsoddiad mewn seilwaith yn Islwyn?

**Gareth Bennett** *Canol De Cymru*

9 OAQ52190

Pa arweiniad y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i awdurdodau lleol ynghylch adennill treth gyngor nas talwyd?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

10 OAQ52198

Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddyrannu gwariant yn y gyllideb er mwyn datblygu addysg feddygol ym Mangor?

**Mohammad Asghar** *Dwyrain De Cymru*

11 OAQ52166

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau ar gyfer treth ar dir gwag yng Nghymru?

**Caroline Jones** *Gorllewin De Cymru*

12 OAQ52180

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i sicrhau bod cyllideb Cymru yn darparu gwerth am arian?

**David Melding** *Canol De Cymru*

13 OAQ52179

Pa ystyriaeth y mae Ysgrifennydd y Cabinet yn ei rhoi i lywodraeth leol wrth ddyrannu cyllid yn y gyllideb?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

14 OAQ52167

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ariannu prosiectau buddsoddi seilwaith yng ngorllewin Cymru?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

15 OAQ52194

Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gaffael yn y sector gyhoeddus?

## Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

1 OAQ52174

A wnaiff Arweinydd y Tŷ ddatganiad am gamau i wella cynhwysiant digidol ym Merthyr Tudful a Rhymni?

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

2 OAQ52188

A wnaiff Arweinydd y Tŷ roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo cynhwysiant digidol yng Nghymru?

**Nick Ramsay** *Mynwy*

3 OAQ52184

A wnaiff Arweinydd y Tŷ roi'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo cynhwysiant digidol?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

4 OAQ52181

A wnaiff Arweinydd y Tŷ ddatganiad am yr adroddiad Menywod Dawnus ar gyfer Cymru Lwyddiannus?

**Neil Hamilton** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

5 OAQ52185

A wnaiff Arweinydd y Tŷ ddatganiad am gefnogaeth ar gyfer dioddefwyr trais domestig yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

6 OAQ52169

Pa gamau pellach y bydd Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i ymestyn y ddarpariaeth o fand eang yng Nghymru?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

7 OAQ52187

A wnaiff Arweinydd y Tŷ roi'r wybodaeth ddiweddaraf am osod band eang yng ngorsaf Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub yn Nhŷ Ddewi?

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

8 OAQ52173

A wnaiff Arweinydd y Tŷ ddatganiad am ddatblygu seilwaith digidol ym Merthyr Tudful a Rhymni?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

9 OAQ52159

A wnaiff Arweinydd y Tŷ ddatganiad am ddarparu band eang cyflym iawn mewn cymunedau gwledig?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

10 OAQ52168

A wnaiff Arweinydd y Tŷ amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella'r ddarpariaeth o fand eang yn Sir Benfro?

**Simon Thomas** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

11 OAQ52195

Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

Pa drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU am argaeledd fisas ar gyfer gweithwyr mudol mewn sectorau allweddol economi Cymru pan fydd y DU yn gadael yr UE?

**Mandy Jones** *Gogledd Cymru*

12 OAQ52197

A wnaiff Arweinydd y Tŷ roi'r wybodaeth ddiweddaraf am seilwaith band eang yng Ngogledd Cymru?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

13 OAQ52170

A wnaiff Arweinydd y Tŷ roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i wneud Cymru yn genedl gwaith teg?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

14 OAQ52182

Faint o'r £1. 1 miliwn a ddyrannwyd i fynd i'r afael â thlodi ac urddas misglwyf y disgwylir y bydd yn cael ei ddyrannu i atebion cynaliadwy?

# Comisiwn y Cynulliad

**Neil Hamilton** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

1 OAQ52199

A wnaiff y Comisiynydd roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd tuag at gyflawni amcan pedwar o Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant 2016-211 y Cynulliad?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

2 OAQ52193

A wnaiff y Comisiynydd egluro pam mae nifer y digwyddiadau y gall Aelodau'r Cynulliad eu noddi wedi'i gyfyngu i 10 y flwyddyn?